

Eich cyf / Your ref:

Gofynner am / Please ask for:

Fy nghyf / My ref:

Llinell Uniongyrchol / Direct Line:

Dyddiad / Date:
29.01.21

E-bost / E-mail:

Annwyl riant / gofalwr

Heddiw (dydd Gwener, 29 Ionawr) mae Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford, wedi cyhoeddi dull graddol a hyblyg ar gyfer dychwelyd i'r ysgol - os bydd achosion coronafeirws yn parhau i ostwng.

Dywedodd y gallai'r plant ieuengaf yng Nghymru ddechrau dychwelyd i'r ysgol ar ôl hanner tymor mis Chwefror os byddwn yn parhau i weld gostyngiad yng nghyfraddau'r coronafeirws.

Bydd y broses o ddychwelyd i'r ysgol gynradd yn cael ei chynllunio mewn ffordd raddol a hyblyg o 22 Chwefror, os bydd y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd yn parhau i wella. Caiff penderfyniad terfynol ar hyn ei wneud ddydd Gwener nesaf.

Rydym yn croesawu'r wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru fel y gallwn weithio gydag ysgolion dros yr wythnosau nesaf i gynllunio ar gyfer dychweliad diogel disgyblion i'r ystafell ddosbarth.

Gallwch fod yn dawel eich meddwl mai diogelwch disgyblion a staff yw ein prif flaenoriaeth, a byddwn yn defnyddio'r amser hwn i adolygu'r mesurau sydd gennym ar waith.

Mae'n bwysig nodi y byddwn yn dechrau drwy groesawu'r disgyblion ieuengaf (y Cyfnod Sylfaen) yn ôl yn gyntaf, ond bydd hyn yn cael ei wneud yn ofalus iawn ac fe aiff cryn amser cyn y gall pob disgybl dychwelyd i'r ysgol.

Cyn gynted ag y bydd gennym unrhyw wybodaeth bellach, byddwn yn ei rhoi i chi. Yn y cyfamser, bydd eich ysgol yn parhau i'ch cefnogi â dysgu o bell, rydym wedi gweld gwaith rhagorol yn cael ei wneud dros yr wythnosau diwethaf, a hoffem ddiolch i chi am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth, rydym yn gwybod nad yw'n hawdd.

Daliwch ati i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau lledaeniad y feirws, a chofiwch, os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael prawf ar unwaith.

Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n bositif.

Gareth Morgans, BAdd/BEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE


Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English

I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg

Hoffwn ddiolch i chi unwaith eto am eich holl gydweithrediad a chefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Yn gywir,



Gareth Morgans
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant

Gareth Morgans, BAdd/BEEd; MGw/MSc

Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir, Gaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Director of Education & Children's Services,
County Hall, Carmarthen, Carmarthenshire SA31 1JP



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Mae croeso i chi gysylltu â mi yn y Gymraeg neu'r Saesneg

You are welcome to contact me in Welsh or English